Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh







Adroddiad Blynyddol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Annual Report of the National Centre for Learning Welsh

2025-2026

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn

Dathlu Dysgu Cymraeg

Celebrating Learning Welsh

Adroddiad Blynyddol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Annual Report of the National Centre for Learning Welsh

2025-2026

Cynnwys

Amdanom ni	4
Cyflwyniad	10
Denu	20
Dysgu	30
Defnyddio	42
Cynllunio Strategol	52
Cysylltwch â ni	58

Contents

About us	5
Introduction	11
Attract	21
Teach	31
Use	43
Strategic Planning	53
Contact us	59





1. Amdanom ni

Creu siaradwyr Cymraeg

Prif nod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yw creu siaradwyr Cymraeg sy'n mwynhau defnyddio'r iaith, trwy ddarparu strategaeth a gwasanaethau Dysgu Cymraeg cenedlaethol.

Mae Cynllun Strategol y Ganolfan ar gyfer 2024-2026 yn adlewyrchu themâu strategol polisi Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. 'Denu', 'dysgu' a 'defnyddio' yw'r prif benawdau, wrth i'r Ganolfan gynnal ac ymestyn ei gwasanaethau i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg newydd:

Denu:
Agor drysau i ddysgu'r Gymraeg a denu mwy i'w dysgu.

Dysgu:
Darparu cyfleoedd dysgu amrywiol, o ansawdd uchel.

Defnyddio:
Cefnogi defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr yn eu bywydau pob dydd.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y penawdau hyn.

(Mae'r Adroddiad yn adrodd ar waith blwyddyn academaidd 2025-2026; mae'r data swyddogol diweddaraf sydd ar gael ar gyfer blwyddyn academaidd 2024-2025).

1. About us

Creating Welsh speakers

The main aim of the National Centre for Learning Welsh is to create Welsh speakers who enjoy using the language, through the provision of a national strategy and services for learning Welsh.

The Centre's Strategic Plan for 2024-2026 reflects the strategic themes of the Welsh Government's Cymraeg 2050 policy. 'Attract', 'teach' and 'use' are the Centre's priorities as it maintains and extends its services for learners and new speakers of Welsh:

Attract:
Open doors to learning Welsh and attract more learners.

Teach:
Provide a variety of high-quality learning opportunities.

Use:
Support the use of Welsh by learners in their everyday lives.

The Annual Report documents progress against these objectives.

(The Report covers the 2025-2026 academic year; the latest official data available is for the 2024-2025 academic year).

Lefelau dysgu

Mae'r Ganolfan yn cydweithio â darparwyr, sy'n cynnal cyrsiau ar ei rhan. Mae'r cyrsiau ar gael ar lefelau sy'n cyd-fynd â Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd, y 'CEFR' (*Common European Framework of Reference for Languages*). Dyma fodel sy'n rhoi un llwybr dysgu clir i ddod yn siaradwyr Cymraeg.

Y lefelau Dysgu Cymraeg, a lefelau'r CEFR:

Enw'r lefel Dysgu Cymraeg	Disgrifiad o'r gallu ieithyddol	Lefel dysgu'r CEFR
Mynediad	Gallu sgwrsio mewn ffordd syml a gallu dweud rhywbeth amdanyn nhw eu hunain.	A1
Sylfaen	Gallu sgwrsio am eu cefndir a'u milltir sgwâr, a siarad am wybodaeth bersonol neu deuluol; gallu dweud rhywbeth am eu gwaith a'u diddordebau pob dydd.	A2
Canolradd	Gallu defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cyfarwydd yn y gwaith, yr ysgol a gweithgareddau hamdden.	B1
Uwch	Gallu trafod pynciau a themâu o bob math.	B2
Gloywi	Gallu mynegi eu hunain yn ddigymell, yn fanwl-gywir ac yn rhugl iawn.	C1/C2

Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnig cyrsiau 'blasu' cyn Mynediad (lefel cyn-A1), a chyrsiau Codi Hyder, sy'n annog ac yn galluogi defnydd o'r Gymraeg ymhlith siaradwyr di-hyder.

Learning levels

The Centre works with providers that run courses on its behalf. Courses are available at levels which align with the Common European Framework of Reference for Languages (CEFR). This model provides learners with a clear single pathway to becoming Welsh speakers.

Learn Welsh levels and CEFR levels:

Learn Welsh level	Description of linguistic ability level	CEFR
Entry / Mynediad	Able to converse in a simple way and able to say something about themselves.	A1
Foundation / Sylfaen	Able to converse about their background and locality, and talk about personal or family information; able to say something about their work and everyday interests.	A2
Intermediate / Canolradd	Able to use the Welsh language in familiar situations in work, school and leisure activities.	B1
Advanced / Uwch	Able to discuss all kinds of topics and themes.	B2
Proficiency / Gloywi	Able to express themselves spontaneously, precisely and very fluently.	C1/C2

The Centre also offers pre-Entry 'taster' courses (pre-A1 level), and Confidence-Building courses, which encourage and enable the use of the Welsh language among less confident speakers.

Modelau dysgu

Mae dewis o fodelau dysgu ar gael, gan gynnwys:

- Cyrsiau o dan arweiniad tiwtor (wyneb yn wyneb neu mewn dosbarth rhithiol);
- Cyrsiau preswyl;
- Cyrsiau hunan-astudio ar-lein;
- Cyrsiau sy'n cyfuno dysgu o dan arweiniad tiwtor â hunan-astudio ar-lein.

Cynlluniau wedi'u teilwra

Mae'r Ganolfan yn cynllunio'n strategol i ddarparu rhaglenni Dysgu Cymraeg pwrpasol a hyblyg ar gyfer sectorau a chyflogwyr amrywiol, gan gynnwys Iechyd a Gofal, y Gweithlu Addysg, Chwaraeon, Pobl Ifanc a Theuluoedd.

Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Bydd gwaith y Ganolfan yn trosglwyddo i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, un o gyrff hyd braich gweithredol Llywodraeth Cymru, ar 1 Awst 2027, o dan Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Bydd yr Athrofa yn adeiladu ar sylfeini llwyddiannus y Ganolfan, ac yn hwyluso a chefnogi dysgu Cymraeg fel bod mwy o bobl (o bob oedran) yn dysgu'r iaith.



Learning models

There is a choice of learning models, including:

- Tutor-led courses (face-to-face or in a virtual classroom);
- Residential courses;
- Online self-study courses;
- Courses that combine tutor-led learning with online self-study.

Tailored programmes

The Centre plans strategically to provide tailored, flexible Learn Welsh programmes for a range of sectors and employers, including Health and Social Care, the Education Workforce, Sport, Young People and Families.

The National Institute for Learning Welsh

The Centre's work will transfer to the National Institute for Learning Welsh, an operational arm's-length body of the Welsh Government, on 1 August 2027 under the Welsh Language and Education (Wales) Act 2025. The Institute will build on the Centre's successful foundations and facilitate and support learning Welsh so that more people of all ages can learn the language.

2. Cyflwyniad y Prif Weithredwr
Dathlu carreg filltir arbennig



Fe gawson ni gyfle i ddathlu carreg filltir arbennig yn ystod y flwyddyn, sef deng mlynedd ers sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

O dan arweiniad y Ganolfan, mae'r sector Dysgu Cymraeg wedi mynd o nerth i nerth, ac erbyn hyn, mae dros 20,000 o bobl yn dysgu Cymraeg – dyma'r nifer uchaf erioed a chynnydd o 61% ers i'r Ganolfan ddod yn gyfrifol am y sector yn 2016.

Dros y degawd diwethaf, 'dyn ni wedi cynllunio'n strategol ac wedi ehangu ein gwaith yn sylweddol, er mwyn datblygu cyfleoedd newydd i bobl ddysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg yn eu cymunedau, eu gweithleoedd a'u bywydau pob dydd.

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, gwelwyd enghreifftiau pellach o'r twf yma, gan gynnwys:

- Darparu dros 1,500 o gyrsiau mewn cymunedau ledled Cymru, ac mewn dosbarthiadau rhithiol.
- Lansio cynllun Dysgu Cymraeg newydd ar gyfer Chwaraeon, mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru.
- Cyflwyno cynllun Dysgu Cymraeg newydd ar gyfer bydwragedd, ar y cyd â Choleg Brenhinol y Bydwragedd.
- Sefydlu Pwyllgor Ymchwil Dysgu ac Addysgu newydd.
- Sefydlu Cynllun Dysgu Cymraeg Gofal Plant newydd.
- Ymgorffori'r cyrsiau dysgu dwys (drwy gyfnod sabothol) i raglen Dysgu Cymraeg genedlaethol y Ganolfan ar gyfer y Gweithlu Addysg.
- Cydweithio â'n partneriaid niferus – gan gynnwys BBC Cymru, S4C, Cyngor Llyfrau Cymraeg a Mentrau Iaith Cymru – i greu cyfleoedd i'n dysgwyr a siaradwyr newydd i gryfhau eu sgiliau, a mwynhau'r Gymraeg.

2. Chief Executive's introduction
Celebrating a special milestone

During the year, we celebrated a special milestone: 10 years since the National Centre for Learning Welsh was established.

Under the Centre's leadership, the Learn Welsh sector has gone from strength to strength, and more than 20,000 people are now learning Welsh – the highest ever number and a 61% increase since the Centre took responsibility for the sector in 2016.

Over the past decade, we have planned strategically and have significantly expanded our work to develop new opportunities for people to learn, use and enjoy the Welsh language in their communities, workplaces and everyday lives.

The past year brought further examples of this growth, including:

- Providing more than 1,500 courses in communities across Wales and in virtual classrooms.
- Launching a new Learn Welsh programme for Sport, in partnership with Sport Wales.
- Introducing a new Learn Welsh programme for midwives, in partnership with the Royal College of Midwives.
- Establishing a new Research Committee for Teaching and Learning.
- Establishing a new Learn Welsh Childcare Scheme.
- Bringing intensive learning courses (through sabbatical programmes) into the Centre's national Learn Welsh programme for the Education Workforce.
- Working with our many partners – including BBC Cymru Wales, S4C, the Books Council of Wales and Mentrau Iaith Cymru – to create opportunities for our learners and new speakers to strengthen their skills and enjoy the Welsh language.

Mae ffyniant y sector Dysgu Cymraeg yn adlewyrchu ymrwymiad a gwaith caled ein tiwtoriaid a'n staff, yn ogystal â brwdfrydedd ac angerdd ein dysgwyr a'n partneriaid ledled Cymru. Hoffwn ddiolch o waelod calon i bob un ohonynt am eu cyfraniad gwerthfawr.

'Dyn ni'n freintiedig iawn i gefnogi dysgwyr o bob cefndir ar hyd pob cam o'u taith iaith, er mwyn gwireddu ein nod o greu siaradwyr Cymraeg sy'n mwynhau defnyddio'r iaith. 'Dyn ni'n edrych ymlaen at barhau â'r gwaith hwnnw, wrth i bennod newydd, gyffrous agor ar gyfer yr iaith.

Dona Lewis
Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

"'Dyn ni'n freintiedig iawn i gefnogi dysgwyr o bob cefndir ar hyd pob cam o'u taith iaith..."

The growth of the Learn Welsh sector reflects the commitment and hard work of our tutors and staff, as well as the enthusiasm and passion of our learners and partners across Wales. I would like to thank every one of them wholeheartedly for their valuable contribution.

We are very privileged to support learners from all backgrounds at every stage of their language journey, helping to achieve our aim of creating Welsh speakers who enjoy using the language. We look forward to continuing this work as a new and exciting chapter opens for the Welsh language.

Dona Lewis
Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh

"We are very privileged to support learners from all backgrounds at every stage of their language journey..."





Mwynhau dysgu a siarad Cymraeg

Dysgwr y Flwyddyn

Daw Jonathan Davies, enillydd cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn Eisteddfod y Garreg Las 2026, o Gasllwchwr ger Abertawe. Dysgodd ychydig o Gymraeg yn yr ysgol, ond ail-gydiodd yn yr iaith yn ystod y cyfnod clo. Mae bellach yn gweithio fel tiwtor Dysgu Cymraeg ac yn astudio ar gyfer doethuriaeth, trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Jonathan yn cynrychioli'r Ganolfan dros y 12 mis nesaf, gan rannu ei daith iaith bwerus ac ysbrydoli eraill i ddal ati neu i gymryd y cam cyntaf tuag at ddysgu'r iaith.

Pobl Ifanc

Llongyfarchiadau i enillwyr gwobrau dysgwyr ifanc Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026. Enillydd Medal Bobi Jones oedd Katie Baddiley. Yn wreiddiol o Nottingham, symudodd Katie i Fangor yn 2020 i astudio Seicoleg yn y brifysgol, a dechreuodd ddysgu Cymraeg yn 2023 ar ôl ymuno â'r heddlu. Mae'n Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd yn ei gwaith. Enillydd Medal y Dysgwyr oedd Caerwyn Saunders o Dreorci. Roedd yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Treorci ac yn aelod brwd o'r Urdd. Roedd yn gadeirydd ar y Criw Cymraeg yn yr ysgol ac yn llysgennad ysgol i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae Caerwyn bellach yn gweithio'n llawn amser fel prentis i gwmni cyfrifydd yng Nghasnewydd.



Enjoy learning and speaking Welsh

Welsh Learner of the Year

Jonathan Davies from Loughor near Swansea was named the Welsh Learner of the Year at the 2026 National Eisteddfod (Eisteddfod y Garreg Las). He learned a little Welsh at school but reconnected with the language during lockdown. He now works as a Learn Welsh tutor and is studying for a PhD through the medium of Welsh. Jonathan will represent the Centre over the next 12 months, sharing his powerful language journey and inspiring others to keep learning or take their first steps towards learning the language.

Young people

Congratulations to the winners of the young learner awards at the 2026 Urdd Eisteddfod in Anglesey. The winner of the Bobi Jones Medal was Katie Baddiley. Originally from Nottingham, Katie moved to Bangor in 2020 to study Psychology at university, and began learning Welsh in 2023 after joining the police. She is a Police Community Support Officer and uses the Welsh language every day at work. The winner of the Learner's Medal was Caerwyn Saunders from Treorchy. He was a pupil at Treorchy Comprehensive School and an active member of the Urdd. He was Chair of the 'Criw Cymraeg' (Welsh Language Group) at his school and a school ambassador for the Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Caerwyn now works full-time as an apprentice for an accountancy firm in Newport.



Gweithle

Mae'r Ganolfan yn cynnal rhaglen Dysgu Cymraeg genedlaethol ar gyfer y gweithlu Iechyd a Gofal, gan gynnig ystod o hyfforddiant i gefnogi 'Mwy na Geiriau', strategaeth Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Mei-Ju Hwang, Ymgynghorydd Llawfeddygol y Fron yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, yn dilyn cyrsiau'r Ganolfan. Mae Mei-Ju yn dod o Taiwan, a bellach yn byw yn Ynys Môn.

Gweithlu Addysg

Mae Laura Wynne Thomas, sy'n wreiddiol o ogledd ddwyrain Cymru, yn dysgu yn Ysgol Gynradd Tredegarville yng Nghaerdydd, lle mae 80% o'r plant yn siarad Saesneg fel ail iaith. Mae'n arweinydd y Gymraeg yn ei hysgol, ac mae'n dweud bod y Gymraeg yn cysylltu'r plant â'i gilydd. Dilynodd y cwrs Dysgu Cymraeg dwys (sabothol) ar gyfer athrawon. Mae'n frwd iawn dros yr iaith ac yn aelod o Gôr CF1 a Dysgôr.

Workplace

The Centre runs a national Learn Welsh programme for the Health and Social Care workforce, offering a range of training to support the Welsh Government's 'More than just Words' strategy for providing healthcare services through the medium of Welsh. Mei-Ju Hwang, a Consultant Breast Surgeon at Ysbyty Gwynedd, Bangor, is following the Centre's courses. Mei-Ju is from Taiwan and now lives in Anglesey.

Education Workforce

Laura Wynne Thomas, originally from north east Wales, teaches at Tredegarville C.I.W. Primary School in Cardiff, where 80% of the children speak English as a second language. She is the Welsh language lead at her school and says that the Welsh language connects the children with each other. She has followed the intensive Learn Welsh course for teachers (the former sabbatical scheme). She is passionate about the language and is a member of Côr CF1 Choir and Dysgôr.





Teuluoedd

Yn enedigol o'r Alban, dechreuodd Erin Hair ddysgu Cymraeg yn anffurfiol wrth fyw gyda dau actor Cymraeg yn Llundain – mae bellach yn briod i un ohonynt. Symudodd i Lanrwst (cartref ei gŵr) yn ystod Covid, gan weithio ym mwyty'r teulu a defnyddio'r Gymraeg yn naturiol bob dydd. Mae bellach yn magu ei phlant trwy'r Gymraeg. Mae'n gantores, ac fe serennodd yn ail gyfres Y Llais ar S4C. Mae'n gweithio mewn ysgol Saesneg, lle mae'n ysbrydoli cydweithwyr i ddysgu Cymraeg. Ei huchelgais yw sicrhau swydd mewn ysgol Gymraeg yn y dyfodol.



Cymunedol

Foo Seng Thean oedd enillydd y categori 'Siaradwr Cymraeg Newydd' yng Ngwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion y Sefydliad Dysgu a Gwaith 2025. Yn wreiddiol o Malaysia, symudodd Foo Seng a'i deulu i Abertawe yn 2015. Mae'n mwynhau dysgu Cymraeg, ac yn defnyddio'r iaith gyda'i feibion, ac yn y gwaith yn y Gymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru. Mae'n aelod o gôr y dysgwyr ac yn mwynhau siarad Cymraeg ag aelodau'r côr.

Tiwtor Ysbrydoli! 2026

Daw Ruth Lloyd o Lanwrtyd, ac mae'n diwtor ar gynlluniau Dysgu Cymraeg y Ganolfan ar gyfer gweithluoedd. Mae Ruth wedi cael gyrfa lwyddiannus fel actor, yn ogystal â threulio blynyddoedd yn dysgu Cymraeg i blant ac oedolion. Enillodd wobr am ei gwaith fel tiwtor yng ngwobrau Tiwtor Ysbrydoli! 2026 y Sefydliad Dysgu a Gwaith.



Families

Originally from Scotland, Erin Hair began learning Welsh informally while living with two Welsh actors in London. Now married to one of them, she moved to Llanrwst, her husband's hometown, during Covid, where she worked in the family restaurant and used the Welsh language naturally every day. She is now raising her children through the medium of Welsh. She is a singer and appeared in the second series of Y Llais on S4C. She works in an English-medium school, where she inspires her colleagues to learn Welsh. Her ambition is to work in a Welsh-medium school in the future.

Community

Foo Seng Thean was the winner of the 'New Welsh Speaker' award at the Inspire! Adult Learning Awards, organised by the Learning and Work Institute. Originally from Malaysia, Foo Seng and his family moved to Swansea in 2015. He enjoys learning Welsh, and uses the language with his sons, and at work at the Chinese in Wales Association. He is a member of a Welsh learners' choir and enjoys speaking Welsh with fellow choir members.

Inspire! Tutor 2026

Ruth Lloyd is from Llanwrtyd Wells and works as a tutor on the Centre's Learn Welsh scheme for workforces. Ruth has had a successful career as an actor, as well as teaching Welsh to children and adults. She won the award for her work as a tutor at the Learning and Work Institute's Inspire! Tutor Awards 2026.



3. Denu: Agor drysau i ddysgu'r Gymraeg a denu mwy i'w dysgu

3.1 Marchnata a chyfathrebu

Llysgenhadon Dysgu Cymraeg

Yn ystod Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn, cyhoeddodd y Ganolfan gynllun llysgenhadon newydd, gyda'r nod o ysbrydoli hyd yn oed yn fwy o bobl i ddysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg.

Penodwyd pedwar llysgennad blaenllaw fel rhan o'r cynllun newydd, sef:

- Aleighcia Scott – y gantores a'r DJ, ac un o hyfforddwyr sioe S4C, Y Llais.
- Tori James – yr anturiaethwr a'r Gymraes gyntaf i ddringo Everest.
- Katie Owen – y DJ a'r dylanwadwr cyfryngau cymdeithasol.
- Ian Gwyn Hughes – Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

Mae'r pedwar yn cynrychioli'r Ganolfan, gan rannu eu profiadau personol o'r Gymraeg, a thynnu sylw at waith y sector Dysgu Cymraeg. Maen nhw hefyd yn cefnogi ymgyrchoedd recriwtio, gan annog pobl o bob cefndir i ddechrau dysgu Cymraeg, neu i barhau â'u taith iaith.



"Mae dysgu Cymraeg wedi bod yn daith bersonol bwysig i fi, ac wedi agor drysau newydd – yn greadigol ac yn gymdeithasol."

Aleighcia



"Dw i'n falch iawn o'r cyfle i gefnogi pobl i gymryd y cam cyntaf i ddysgu Cymraeg, ac i ddal ati – mae'r daith yn un werth chweil."

Tori

"Learning Welsh has been an important personal journey for me, and it has opened new doors – both creatively and socially."

Aleighcia

"I'm very proud to have the opportunity to support people to take their first steps into learning Welsh, and to keep going – it's a journey well worth taking."

Tori

3. Attract: Open doors to learning Welsh and attract more learners

3.1 Marketing and communications

Learn Welsh Ambassadors

During the Urdd Eisteddfod in Anglesey, the Centre announced a new ambassador scheme with the aim of inspiring even more people to learn, use and enjoy the Welsh language.

Four high-profile ambassadors were appointed as part of the new scheme:

- Aleighcia Scott – singer and DJ, and one of the mentors on S4C's talent show, Y Llais.
- Tori James – adventurer and the first Welsh woman to climb Mount Everest.
- Katie Owen – DJ and social media influencer.
- Ian Gwyn Hughes – Head of Public Relations at the Football Association of Wales.

The four ambassadors represent the Centre, sharing their personal experiences of the Welsh language, and highlighting the work of the Learn Welsh sector. They also support recruitment campaigns, encouraging people from all backgrounds to start learning Welsh or continue their language journey.

Ymgyrchoedd

Cynhaliwyd ymgyrchoedd marchnata digidol yn ystod y flwyddyn, a defnyddiwyd platfformau amrywiol, gan gynnwys Meta, TikTok, Snapchat a Google Search i ddenu dechreuwyr, a thargedu carfannau penodol.

Ymgysylltu

Ym mis Rhagfyr 2025, cynhaliodd y Ganolfan gynhadledd ar y cyd â Llywodraeth Cymru i drafod datblygu un llwybr dysgu clir tuag at ddod yn siaradwr Cymraeg. Daeth dros 200 o gynrychiolwyr ynghyd i ystyried sut y gellid defnyddio Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR) i gefnogi dysgwyr o bob oed ac ar bob cam o'u taith iaith.

Cynhadledd y Gweithlu

Cafwyd cyfle i ddathlu gwasanaethau Dysgu Cymraeg eang ac amrywiol y Ganolfan ar gyfer gweithluoedd mewn digwyddiad a gynhaliwyd yn y Senedd ym mis Mawrth. Ers i'r Ganolfan ddechrau darparu hyfforddiant ar gyfer gweithluoedd yn 2018, mae 2,000 o gyflogwyr a 30,000 o weithwyr wedi cymryd rhan.

Mae cynlluniau niferus wedi'u teilwra ar gyfer cyflogwyr a sectorau penodol, gan gynnwys Iechyd a Gofal, y Gweithlu Addysg, a Chwaraeon.



"Ro'n i wastad eisiau dysgu Cymraeg, a dyma'r peth gorau i fi wneud. Mae'r gymuned Gymraeg mor groesawgar."

Katie

"I'd always wanted to learn Welsh, and it has been the best thing I've done. The Welsh-speaking community is so welcoming."

Katie



"Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, a dw i'n edrych ymlaen at gefnogi gwaith y Ganolfan i ehangu defnydd o'r Gymraeg mewn pob math o gyd-destunau."

Ian Gwyn

"Welsh belongs to all of us, and I look forward to supporting the Centre's work to extend the use of Welsh in all kinds of contexts."

Ian Gwyn

Campaigns

Digital marketing campaigns were held during the year, using a range of platforms, including Meta, TikTok, Snapchat and Google Search, in order to attract beginners and target specific groups.

Engagement

In December 2025, the Centre and the Welsh Government jointly held a conference to discuss developing one clear learning pathway to becoming a Welsh speaker. More than 200 representatives came together to consider how the Common European Framework of Reference for Languages (CEFR) could be used to support learners of all ages and at every stage of their language journey.

Workforce Conference

The Centre's wide-ranging Learn Welsh services for workforces were celebrated at an event held at the Senedd in March. Since the Centre began providing training for workforces in 2018, 2,000 employers and 30,000 employees have taken part.

Numerous programmes have been tailored for specific employers and sectors, including Health and Social Care, the Education Workforce and Sport.

Datblygu, Dysgu, Defnyddio

Daeth sefydliadau ledled Cymru at ei gilydd i drafod defnydd o'r Gymraeg mewn gweithluoedd, mewn cynhadledd a gynhaliwyd ar y cyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a'r Ganolfan. Roedd cyfle i glywed gan gyflogwyr am eu profiadau nhw o ddefnyddio'r Gymraeg, rhannu arferion da, a thrafod amrywiol syniadau.

Lleisiau'r dysgwyr

Mae'r Ganolfan yn cynnal holiadur barn cenedlaethol o'r enw 'Dweud eich Dweud', sy'n ffordd o ddarganfod barn ein dysgwyr am wahanol agweddau ar ddysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg, gan adnabod unrhyw gyfleoedd i gryfhau a mireinio'r ddarpariaeth.

Yn 2025-2026, cwblhaodd **5,268** o ddysgwyr yr holiadur, y nifer uchaf erioed, a chynnydd o 9% ers i'r holiadur llawn diwethaf gael ei gyhoeddi yn ystod 2023-2024. Dyma rai o brif ganfyddiadau'r holiadur:

- Nododd 99% eu bod yn mwynhau dysgu Cymraeg.
- Nododd 99% bod y tiwtor yn dysgu'r cwrs yn effeithiol.
- Nododd 89% eu bod yn defnyddio eu Cymraeg y tu allan i'r dosbarth.





Develop, Learn, Use

Organisations from across Wales came together to discuss the use of the Welsh language in workplaces at a conference jointly held by the Welsh Language Commissioner and the Centre. The conference provided an opportunity to hear from employers about their experiences of using Welsh, share good practice and exchange ideas.

Learners' voices

The Centre conducts an annual national survey, called 'Dweud eich Dweud' (Have your Say), to gather learners' views on learning, using and enjoying the Welsh language. The findings help identify opportunities to strengthen and refine its provision.

A total of **5,268** learners completed the questionnaire in 2025-2026, the highest ever number, and an increase of 9% since the previous questionnaire was published in 2023-2024. Here are some of the key findings:

- 99% of respondents said they enjoyed learning Welsh.
- 99% said their tutor taught the course effectively.
- 89% said they use their Welsh outside the classroom.

3.2 Cynllun Gwrth-hiliaeth y Ganolfan

Mae Cynllun Gwrth-hiliaeth y Ganolfan yn cyd-fynd â gwerthoedd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.

Yn ôl data swyddogol 2024-2025, cofnododd 73% o'r dysgwyr wybodaeth am ethnigrwydd. Roedd 5% o'r dysgwyr wedi cofnodi ethnigrwydd amrywiol, sy'n gynnydd o 1% o gymharu â data 2023-2024.

Bydd y Ganolfan yn parhau i lywio strategaethau cyfathrebu a marchnata er mwyn denu mwy o ddysgwyr o gymunedau mwyafrif byd-eang i fanteisio ar ei gwasanaethau.

> **"Mae 2024-2025 yn adrodd ar gynnydd o 61% o ddysgwyr unigryw o'i gymharu â'r niferoedd yn y cyhoeddiad cyntaf yn 2017-2018."**

3.3 Ystadegau

Cyfnod Data: 1 Awst 2024 - 31 Gorffennaf 2025

Niferoedd y dysgwyr unigryw

Mae 'niferoedd y dysgwyr unigryw' yn cyfrif pob dysgwr unwaith yn unig, faint bynnag o gyrsiau maent wedi eu dilyn yn ystod y flwyddyn.

- Mae data 2024-2025 yn adrodd ar y nifer uchaf o ddysgwyr ers i'r Ganolfan ddechrau cyhoeddi data.
- Yn 2024-2025 roedd 20,445 o ddysgwyr unigryw, cynnydd o 12% o'i gymharu â 2023-2024.
- Mae 2024-2025 yn adrodd ar gynnydd o 61% o ddysgwyr unigryw o'i gymharu â'r niferoedd yn y cyhoeddiad cyntaf yn 2017-2018.

3.2 The Centre's Anti-Racism Plan

The Centre's Anti-Racism Plan aligns with the values of the Welsh Government's Anti-Racist Wales Action Plan.

According to official 2024-2025 data, 73% of learners provided information about their ethnicity. 5% of these learners recorded diverse ethnicities, an increase of 1% compared with 2023-2024.

The Centre will continue to inform communication and marketing strategies in order to attract more learners from global majority communities to take advantage of its services.

> **"The 2024-2025 data reports a 61% increase in unique learners compared with the figures in the first publication of data in 2017-2018."**

3.3 Statistics

Data period: 1 August 2024 – 31 July 2025

Number of unique learners

The 'number of unique learners' counts every learner only once, regardless of how many courses they have attended during the year.

- The 2024-2025 data reports the highest number of learners since the Centre first published data.
- In 2024-2025 there were 20,445 unique learners, an increase of 12% compared with 2023-2024.
- The 2024-2025 data reports a 61% increase in unique learners compared with the figures in the first publication of data in 2017-2018.





Nifer y gweithgareddau dysgu

Gall dysgwyr fynychu mwy nag un gweithgaredd dysgu ar lefel neu ddwyster gwahanol yn ystod y flwyddyn.

- Cwblhaodd dysgwyr 2024-2025 34,960 o weithgareddau dysgu, cynnydd o 12% o'i gymharu â 2023-2024.
- Mae 79% yn fwy o weithgareddau dysgu yn 2024-2025 o'i gymharu â'r niferoedd yn y cyhoeddiad cyntaf yn 2017-2018.

Oed dysgwyr

Cyfrifir oed y dysgwr o ddydd cyntaf y flwyddyn academaidd dan sylw. Y dysgwr sy'n gyfrifol am gyflwyno ei ddyddiad geni.

- Mae **17,350** o ddysgwyr **2024-2025** o fewn yr ystod oedran gweithio, sef 16-64 oed, sydd yn **84%** o'r holl ddysgwyr sydd wedi cofnodi eu dyddiad geni.
- Mae **4,110** o ddysgwyr **2024-2025** o fewn yr ystod oedran 16-24 oed, cynnydd o **56%** o'i gymharu â **2023-2024**.

Number of learning activities

Learners are able to take part in more than one learning activity at a different level or intensity during the year.

- Learners completed 34,960 learning activities in 2024-2025, an increase of 12% compared with 2023-2024.
- There were 79% more learning activities in 2024-2025 compared with the figures in the first publication of data in 2017-2018.

Learners by age

The age of learners is calculated from the first day of the academic year in question. Individual learners are responsible for declaring their date of birth.

- In **2024-2025**, **17,350** learners were within the working age range of 16-64, representing **84%** of all learners who had recorded their date of birth.
- In **2024-2025**, **4,110** learners were aged 16-24, an increase of **56%** compared with **2023-2024**.

4. Dysgu: Darparu gwasanaethau Dysgu Cymraeg amrywiol ac o safon uchel

4.1 Gwasanaethau Dysgu Cymraeg

Y cwricwlwm Dysgu Cymraeg cenedlaethol, sydd wedi'i alinio â fframwaith rhyngwladol y CEFR (Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd), sy'n sail i holl wasanaethau'r Ganolfan, ac mae cyrsiau ac adnoddau yn cael eu datblygu a'u mireinio'n barhaus.

Cyflwyno'r CEFR

Croesawodd y Ganolfan 200 o westeion i'w chynhadledd genedlaethol ar y cyd â Llywodraeth Cymru, ym mis Rhagfyr. Pwrpas y gynhadledd, a roddodd lwyfan i siaradwyr gwadd o Wlad Pwyl, Norwy a Chanada, yn ogystal ag arbenigwyr o Gymru, oedd trafod sut i greu un llwybr dysgu clir ar gyfer dod yn siaradwr Cymraeg, gan gefnogi dysgwyr o bob oed.

Rhannodd arbenigwyr y Ganolfan eu profiadau o ddefnyddio'r CEFR ac o greu system lwyddiannus sydd wedi cyfrannu at gynnydd sylweddol yn y niferoedd o bobl sy'n dysgu'r iaith.

Llunio'r Cod

Mae'r Ganolfan yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i greu cod sy'n seiliedig ar y CEFR, i'w ddefnyddio ar gyfer dysgu Cymraeg gydol oes. Bydd y cod yn chwarae rhan ganolog wrth wireddu amcanion Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru).

4. Teach: Provide a variety of high quality Learn Welsh services

4.1 Learn Welsh services

The national Learn Welsh curriculum, which is aligned with the CEFR (Common European Framework of Reference for Languages), underpins all the Centre's services, and courses and resources are continuously developed and refined.

Introducing the CEFR

In December, the Centre welcomed 200 guests to its national conference, held jointly with the Welsh Government. The conference, which featured guest speakers from Poland, Norway and Canada, alongside experts from Wales, explored how to create one clear learning pathway to becoming a Welsh speaker, supporting learners of all ages.

Experts from the Centre shared their experience of using the CEFR and of creating a successful system that has contributed to a significant growth in the number of people learning the language.

Developing the Code

The Centre is working with the Welsh Government to develop a code based on the CEFR, for use in lifelong Welsh-language learning. The code will play a central role in delivering the objectives of the Welsh Language and Education (Wales) Act.



Cyrsiau Cymunedol

Cynhaliwyd oddeutu 1,500 o gyrsiau cymunedol, wyneb yn wyneb neu mewn dosbarthiadau rhithiol, ar gyfer oedolion o bob cefndir.

4.2 Plant a Phobl Ifanc

Geirfa graidd

Mae'r Ganolfan yn arwain prosiect ymchwil arloesol i gefnogi plant 7–11 oed i ddysgu a siarad Cymraeg, ac ym mis Gorffennaf 2026, cychwynnwyd ar ail gam y prosiect, ar gyfer pobl ifanc 11-14 oed.

Hyd yn hyn, mae dros 80 o athrawon wedi cefnogi'r ymchwil, sy'n dwyn ynghyd casgliad craidd o dros fil o eiriau fydd yn sail i addysgu'r Gymraeg i blant a phobl ifanc mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.



Bydd yr eirfa graidd yn cynnwys yr enwau, ansoddeiriau a berfau mwyaf sylfaenol a defnyddiol i gynhyrchu iaith, wedi'u dewis yn benodol i fod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i blant a phobl ifanc.

Bydd yr eirfa yn cael ei threfnu yn ôl lefelau cychwynnol y CEFR ac ar gael i ysgolion ledled Cymru, ac Adnodd a Chyngor Llyfrau Cymru, ymhlith partneriaid eraill.

Bydd y prosiect yn adeiladu ar y gwasanaethau eang sy'n barod ar gael gan y Ganolfan ar gyfer y genhedlaeth iau, ac yn cynnig offeryn gwerthfawr fydd yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a sgiliau iaith dysgwyr ifanc ledled Cymru.

Cynnydd yn niferoedd y bobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg

Yn ystod 2024-2025, roedd 4,110 o ddysgwyr rhwng 16 a 24 oed – cynnydd o 56% o'i gymharu â 2023-2024, a chynnydd sylweddol o 483% ers 2018-2019, pan gyhoeddodd y Ganolfan ddata am oedran dysgwyr am y tro cyntaf. Bryd hynny roedd 705 o ddysgwyr yn y grŵp oedran 16-24.

Mae'r Ganolfan yn falch o weld y cynnydd hwn, sy'n adlewyrchu'r ddarpariaeth benodol a ddatblygwyd ar gyfer y grŵp oedran yma, sy'n cynnwys partneriaethau gyda'r Urdd, a sefydliadau eraill, sy'n creu cyfleoedd newydd i bobl ifanc ledled Cymru.

Community-based courses

Approximately 1,500 community-based courses were held, face-to-face or in virtual classes, for adults from all backgrounds.

4.2 Children and young people

Core vocabulary

The Centre is leading an innovative research project to support children aged 7-11 to learn and speak Welsh, and in July 2026, the second phase of the project began for young people aged 11-14.

To date, more than 80 teachers have supported the research, which involves collating a core vocabulary of more than 1,000 words that will form the basis for teaching Welsh to children and young people in English-medium primary schools.

The core vocabulary will include the most elementary and useful nouns, adjectives, and verbs needed to create language, specifically chosen to be relevant and useful to children and young people.

The vocabulary will be organised according to the preliminary levels of the CEFR and made available to schools across Wales, and to Adnodd and the Books Council of Wales, among other partners.

The project will build on the Centre's wide range of services already available for the younger generation and offer a valuable tool that will have a positive impact on the confidence and language skills of young learners across Wales.

Growth in the number of young people learning Welsh

In 2024-2025, there were 4,110 learners aged 16-24 – an increase of 56% compared with 2023-2024, and a significant increase of 483% since 2018-2019, when the Centre first published data on the age of learners. At that time there were 705 learners in the 16-24 age group.

The Centre is pleased to see this growth, which reflects the provision developed specifically for this age group, including partnerships with the Urdd and other organisations, creating new opportunities for young people across Wales.

Mae nifer o bobl ifanc sy'n dilyn llwybr prentisiaethau mewn amrywiol feysydd megis peirianneg, ynghyd â phobl ifanc sy'n dilyn rhaglen Twf Swyddi Cymru+, wedi manteisio ar y cynnig i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Eisteddfod yr Urdd

Arweiniodd y Ganolfan gynlluniau ar gyfer pobl ifanc dalgylchoedd Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn eleni, fel rhan o'i rhaglen eang ar gyfer pobl 16-25 oed. Derbyniodd criw o fyfyrwyr BA Addysg Prifysgol Bangor ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ychwanegol, yn ogystal â chyfle i ymweld â'r Maes.

Mae darpariaeth y Ganolfan hefyd yn cynnwys cynlluniau ar gyfer disgyblion ysgol, myfyrwyr Addysg Bellach, a phrentisiaid, ac mae'n gweithio â sefydliadau megis yr Urdd a Phrifysgol Met Caerdydd er mwyn denu cynulleidfaoedd iau at y Gymraeg.

> **"Mae gwerthusiadau'r Ganolfan yn dangos newid arfer iaith ymysg canran helaeth o'r cyfranogwyr."**

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd cwrs preswyl ar gyfer pobl ifanc, oedd yn cyd-fynd â Gŵyl Canol Dre Caerfyrddin, a roddodd gyfleoedd i'r bobl ifanc fynychu gigs Cymraeg.

4.3 Cynllun Codi Hyder a Defnyddio

Mae codi hyder siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn rhan hollbwysig o waith y Ganolfan.

Mae cyrsiau Codi Hyder wedi bod yn rhan o raglenni'r Ganolfan ar gyfer gweithluoedd ers 2018, ac mae'r ddarpariaeth bellach wedi ymestyn i gymunedau. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, cynhaliwyd cyrsiau yn y gogledd ddwyrain, Ynys Môn, Penrhyndeudraeth a Chaerdydd.

Mae'r ddarpariaeth yn cwmpasu datblygu sgiliau ieithyddol, ymarfer defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau amrywiol a newid arferion ieithyddol.

Mae gwerthusiadau'r Ganolfan yn dangos newid arfer iaith ymysg canran helaeth o'r cyfranogwyr.



> **"The Centre's evaluations show that a significant proportion of participants have changed their language habits."**

Many young people following apprenticeship pathways in fields such as engineering, as well as young people on the Jobs Growth Wales+ programme, have taken up the opportunity to develop their Welsh language skills.

Urdd Eisteddfod

This year, the Centre led programmes for young people in the catchment area of the Urdd Eisteddfod in Anglesey, as part of its wide-ranging programme for 16-25-year-olds. A group of BA Education students from Bangor University received additional Learn Welsh provision, as well as an opportunity to visit the Eisteddfod.

The Centre's provision also includes programmes for school pupils, Further Education students and apprentices, and it works with organisations such as the Urdd and Cardiff Metropolitan University to attract younger audiences to the Welsh language.

During the year, a residential course was held for young people, alongside the Gŵyl Canol Dre festival in Carmarthen, giving young people opportunities to attend Welsh-language gigs.

4.3 Use your Welsh with confidence

Building the confidence of Welsh speakers to use the language is a vital part of the Centre's work.

Confidence-Building courses have been part of the Centre's programmes for workforces since 2018, and provision has now been extended to communities. During the last academic year, courses were held in north east Wales, Anglesey, Penrhyndeudraeth and Cardiff.

The provision includes developing language skills, practising using Welsh in a range of contexts and changing language habits.

The Centre's evaluations show that a significant proportion of participants have changed their language habits.



4.4 Teuluoedd

Mae'r Ganolfan yn arwain pecyn o wasanaethau Dysgu Cymraeg ar gyfer rhieni a gofalwyr.

Clwb Cwtsh: Mae'r Ganolfan yn comisiynu Mudiad Meithrin i gynnal sesiynau dysgu anffurfiol ar gyfer rhieni a gofalwyr plant ifanc.

Cyrsiau Cymraeg yn y Cartref: Mae'r cyrsiau hyn wedi'u teilwra ar gyfer teuluoedd. Mae'r Ganolfan a'i darparwyr yn cydweithio ag ysgolion i gynnig y cyrsiau, ac mae tiwtoriaid yn gweithio â chlystyrau o ysgolion. Mae deunyddiau ar gael i gefnogi rhieni i drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.

Cwrs Llangrannog: Cynhelir cwrs preswyl blynyddol ar gyfer teuluoedd yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog.

4.4 Families

The Centre provides a range of Learn Welsh services for parents and carers.

Clwb Cwtsh: The Centre commissions Mudiad Meithrin to run informal learning sessions for parents and carers of young children.

Welsh at Home courses: These courses are tailored for families. The Centre and its providers work with schools to offer the courses, and tutors work with school clusters. Materials are available to support parents in the transmission of the Welsh language at home.

Llangrannog Course: An annual residential course is held for families at the Urdd centre in Llangrannog.

> **Hyd yma, mae dros 5,000 wedi manteisio ar y ddarpariaeth.**

4.5 Gweithlu Gofal Blynyddoedd Cynnar a Chwarae

Mae'r Ganolfan yn ehangu ei darpariaeth ar gyfer y Gweithlu Gofal Plant a Chwarae gyda chynllun peilot newydd i gryfhau sgiliau Cymraeg y gweithlu ac ateb y galw cynyddol am wasanaethau dwyieithog.

Bydd y cynllun yn cynnwys rhaglenni Dysgu Cymraeg i'r gweithlu sy'n cefnogi myfyrwyr mewn colegau addysg bellach neu drwy brentisiaethau.

Bydd y Ganolfan yn penodi tiwtoriaid i weithio'n uniongyrchol â'r sector, mewn amrywiol weithluoedd, gan gynnwys meithrinfeydd dydd, a darparu hyfforddiant i weithwyr 'Dechrau'n Deg.'

Mae'r cynllun yn adeiladu ar waith y Ganolfan â'r sector ers 2017, pan ddechreuodd ddarparu hyfforddiant Cymraeg i weithwyr gofal plant, a hyd yma, mae dros 5,000 o weithwyr wedi manteisio ar y ddarpariaeth.

4.6 Datblygu'r gweithlu Dysgu Cymraeg

Academi Dysgu Cymraeg

Mae sesiynau hyfforddi rheolaidd a chynhadledd flynyddol yn cael eu cynnal fel rhan o gynllun Academi y Ganolfan ar gyfer tiwtoriaid. Mae'r Ganolfan hefyd yn gweithio â'i darparwyr i gynnig cymhwyster 'Dechrau Dysgu' i diwtoriaid newydd.

Cynhaliwyd hyfforddiant amrywiol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cyflwyniad i'r cwrs Uwch 2, addysgu gwrth-hiliol, dysgu dosbarthiadau mawr ar-lein a chyflwyniadau ar sut orau i ddefnyddio'r safle rhyngweithiol, dysgucymraeg.cymru

Siaradodd yr arbenigwr AI, Llion Jones, am ddatblygiadau a photensial deallusrwydd artiffisial i gefnogi dysgu ieithoedd, yng nghynhadledd genedlaethol y Ganolfan.

> **To date, more than 5,000 have benefited from the provision.**

4.5 Childcare, Play and Early Years Workforce

The Centre is expanding its provision for the Childcare Workforce through a new pilot scheme designed to strengthen Welsh language skills across the sector and meet the growing demand for bilingual services.

The scheme will include Learn Welsh programmes for the workforce supporting students in Further Education colleges or through apprenticeships.

The Centre will appoint tutors to work directly with the sector, across a range of workforces including day nurseries, and provide training for 'Flying Start' workers.

The scheme builds on the Centre's work with the sector since 2017, when it began providing Welsh-language training for childcare workers, and to date, more than 5,000 workers have benefited from the provision.

4.6 Developing the Learn Welsh workforce

Learn Welsh Academy

Regular training sessions and an annual conference are held as part of the Centre's Academy scheme for tutors. The Centre also works with its providers to offer the 'Dechrau Dysgu' qualification to new tutors.

A range of training has been delivered during the year, including an introduction to the Uwch 2 (Advanced 2) course, Anti-Racist teaching, teaching large online classes, and presentations on how to make the best use of the interactive site learnwelsh.cymru

AI expert Llion Jones spoke at the Centre's national conference about the latest developments in artificial intelligence and its potential to support language learning.



Arweinwyr Yfory

Mae cynllun 'Arweinwyr Yfory' y Ganolfan wedi'i sefydlu er mwyn datblygu tiwtoriaid, rheolwyr iau ac ymchwilwyr yn arweinwyr hyderus o fewn y sector Dysgu Cymraeg. Mae'r cynllun yn rhoi cyfle i unigolion ddatblygu eu sgiliau arwain, ehangu eu dealltwriaeth o'r sector a chryfhau eu gallu i gyfrannu at ddatblygiadau strategol o fewn y maes.

Fel rhan o'r cynllun, cynhaliwyd tri chwrs hyfforddi preswyl, gyda 13 o unigolion o bob rhan o Gymru yn cymryd rhan. Roedd y cyrsiau'n cynnig cyfuniad o hyfforddiant, trafodaeth, rhannu arfer da a chyfleoedd i feithrin rhwydweithiau proffesiynol.

Tiwtoriaid Yfory

Fe ddilynodd 16 o fyfyrwyr gynllun Tiwtoriaid Yfory y Ganolfan yn ystod mis Gorffennaf. Cynhaliwyd sesiynau ar dechnegau dysgu a chaffael iaith, a chafodd y myfyrwyr gyfle i arsylwi dosbarthiadau Cwrs Haf Dysgu Cymraeg Caerdydd. Mae rhai o gyn-fyfyrwyr y cynllun bellach yn gweithio fel tiwtoriaid Dysgu Cymraeg, gan gynnwys mewn swyddi llawn amser yn y sector.

4.7 Ymchwil

Sefydlodd y Ganolfan Bwyllgor Ymchwil ar Addysgu a Dysgu Cymraeg newydd yn ystod y flwyddyn.

Prif nod y Pwyllgor yw i lunio Strategaeth Ymchwil sy'n rhoi sail dystiolaeth gadarn ar gyfer dysgu'r Gymraeg gydol oes, gan gyfrannu at nodau polisi Cymraeg 2050 a Deddf y Gymraeg ac Addysg. Bydd y Pwyllgor newydd yn adeiladu ar waith blaenorol Grŵp Arloesi mewn Caffael Iaith y Ganolfan.

Arweinwyr Yfory

The Centre's 'Arweinwyr Yfory' (Leaders of Tomorrow) scheme supports tutors, junior managers and researchers to develop the skills and confidence they need to become leaders within the Learn Welsh sector. The scheme gives individuals an opportunity to develop their leadership skills, broaden their understanding of the sector and strengthen their ability to contribute to strategic developments in the field.

As part of the scheme, three residential training courses were held, with 13 individuals from across Wales taking part. The courses offered a combination of training, discussions, sharing and exchanging good practice and opportunities to build professional networks.

Tiwtoriaid Yfory

Sixteen students participated in the Centre's 'Tiwtoriaid Yfory' (Tutors of Tomorrow) scheme in July.

The programme included sessions on teaching and language acquisition techniques, as well as opportunities to observe classes during the Learn Welsh Cardiff Summer Course. Some former students are now working as Learn Welsh tutors, including in full-time roles in the sector.

4.7 Research

The Centre established a new Research Committee for Teaching and Learning Welsh during the year.

The Committee's main aim is to develop a Research Strategy that provides a strong evidence base for lifelong Welsh-language learning, contributing to the policy objectives of Cymraeg 2050 and the Welsh Language and Education Act. The new Committee will build on the previous work of the Centre's Language Acquisition Innovation Group.



5. Defnyddio: Cefnogi defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr yn eu bywydau pob dydd

Mae cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn rhan hollbwysig o genhadaeth y Ganolfan, ac mae'n gweithio i greu cyfleoedd i ddysgwyr a siaradwyr newydd ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg, yn eu gwaith ac yn eu cymunedau.

5.1 Gweithleoedd

Mae Estyn wedi canmol cynlluniau Cymraeg Gwaith y Ganolfan am yr effaith gadarnhaol maen nhw'n eu cael ar gryfhau sgiliau dwyieithog mewn gweithleoedd ledled Cymru.

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Medi 2025, dywedodd Estyn eu bod yn cydnabod gweledigaeth arloesol arweinwyr y Ganolfan wrth ddatblygu'r cynlluniau. Tynnwyd sylw, hefyd, at y ffordd effeithiol y maent yn cydweithio â chyflogwyr, darparwyr a rhanddeiliaid i ehangu'r cynlluniau hynny.

Mae 2,000 o gyflogwyr a 30,000 o weithwyr wedi manteisio ar y cynlluniau, a gyflwynwyd yn 2018. Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gael a rhaglenni ar gyfer sectorau a chyflogwyr penodol, gan gynnwys Iechyd a Gofal, Awdurdodau Lleol, a Chwaraeon.

Yn ôl Estyn, mae'r galw cynyddol am ehangu'r ddarpariaeth yn dangos bod y cynlluniau yn un o gonglfeini mentrau cynllunio ieithyddol yn y gweithle, ac yn ganolog i'r ymdrechion i ymestyn a normaleiddio defnydd o'r Gymraeg mewn sectorau sy'n greiddiol i ddyfodol yr iaith.

Yn ystod y flwyddyn, darparodd y Ganolfan hyfforddiant i sectorau amrywiol, gan gynnwys:

- Iechyd a Gofal
- Diwylliant a'r Celfyddydau
- Cyfiawnder, Trosedd a Diogelwch
- Chwaraeon
- Yr Amgylchedd
- Awdurdodau Lleol
- Gwasanaeth Sifil

5. Use: Supporting the use of the Welsh language by learners in their everyday lives

Increasing the use of the Welsh language is a crucial part of the Centre's mission, and it works to create opportunities for learners and new speakers to use their Welsh language skills, in their work and communities.

5.1 Workplaces

Estyn has praised the Centre's Work Welsh schemes for their positive impact on strengthening bilingual skills in workplaces across Wales.

In a report published in September 2025, Estyn said it recognised the innovative vision of the Centre's leaders in developing the schemes. It also highlighted the effective way in which the Centre works with employers, providers and stakeholders to expand the provision.

To date, around 2,000 employers and 30,000 employees have taken advantage of the schemes, which were introduced in 2018. Comprehensive provision is available, alongside programmes for specific sectors and employers, including Health and Social Care, Local Authorities and Sport.

According to Estyn, the growing demand to expand the provision shows that the schemes are a cornerstone of language planning in the workplace and are central to efforts to extend and normalise the use of Welsh in sectors that are vital to the future of the language.

During the year, the Centre provided training to a range of sectors, including:

- Health and Social Care
- Culture and the Arts
- Justice, Crime and Security
- Sport
- Environment
- Local Authorities
- Civil Service



“Mae Estyn wedi canmol cynlluniau Cymraeg Gwaith y Ganolfan am yr effaith gadarnhaol maen nhw’n eu cael ar gryfhau sgiliau dwyieithog mewn gweithleoedd ledled Cymru.”

5.2 Iechyd a Gofal

Yn ystod y flwyddyn, dilynodd gweithwyr Iechyd a Gofal rhyngwladol gwrs Dysgu Cymraeg arbennig wedi’i ddatblygu gan y Ganolfan er mwyn cefnogi ‘Mwy na Geiriau’ – strategaeth Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau Iechyd a Gofal trwy’r Gymraeg.

Dilynodd y dysgwyr – yn eu plith, llawfeddyg, seiciatrydd, a gweithwyr iechyd meddwl – y cwrs, oedd yn cyfuno sgiliau iaith ar lefel Sylfaen gyda gwybodaeth am hanes, diwylliant a daearyddiaeth Cymru.

Cyhoeddodd y Ganolfan bartneriaeth newydd â Choleg Brenhinol y Bydwragedd, hefyd, fydd yn galluogi bydwragedd ledled Cymru i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, er mwyn cefnogi gwragedd a’u teuluoedd sy’n derbyn gofal.

Bydd cwrs Dysgu Cymraeg newydd yn cael ei deilwra ar gyfer y maes, a bydd y Ganolfan yn cydweithio â’r Coleg Brenhinol i hyrwyddo’r cwrs i’r 2,000 a mwy o fydwragedd sy’n gweithio ledled Cymru.

Mae deunyddiau dysgu wedi’u datblygu, a bydd bydwragedd yn gallu manteisio ar ddarpariaeth ehangach y Ganolfan ar gyfer y sector Iechyd a Gofal.

Mae’r ddarpariaeth honno yn cynnwys lleoli tiwtor Dysgu Cymraeg ym mhob Bwrdd Iechyd, sy’n cynnig hyfforddiant hyblyg ar bob lefel. Mae’r Ganolfan wedi datblygu cynlluniau ar gyfer arbenigeddau eraill megis Gofal Dementia a Gofal Lliniarol a Diwedd Oes, ac mae wedi cyflwyno Cwrs Croeso/Cwrteisi. Mae’r cwrs byr yma, sydd ar gael fel modiwl hunan-astudio neu o dan arweiniad tiwtor, yn cyflwyno geiriau o gysur ac ymadroddion perthnasol.

5.2 Health and Social Care

During the year, international Health and Social Care workers followed a Learn Welsh course developed by the Centre to support the Welsh Government’s ‘Mwy na Geiriau/More than just Words’ strategy for providing Health and Social Care services through the medium of Welsh.

The learners – including a surgeon, psychiatrist and mental health workers – followed the course, which combined Foundation-level language skills with information about the history, culture and geography of Wales.

The Centre also announced a new partnership with the Royal College of Midwives. The provision will enable midwives across Wales to develop their Welsh language skills, helping them to support women and their families while receiving care.

A new Learn Welsh course will be developed specifically for midwives, and the Centre will work with the Royal College to promote the course to the 2,000 and more midwives working across Wales.

Learning materials have been developed, and midwives will be able to access the Centre’s wider provision for the Health and Social Care sector.

As part of this provision, a Learn Welsh tutor is based in each Health Board, offering flexible training at all levels. The Centre has developed schemes for other specialisms, including Dementia Care and Palliative and End of Life Care, and has introduced a Cwrs Croeso/Cwrteisi (Welcome and Courtesy Course). This short course, available as a self-study module or tutor-led course, introduces Welsh words of comfort and relevant phrases.

“Estyn has praised the Centre’s Work Welsh schemes for their positive impact on strengthening bilingual skills in workplaces across Wales.”

> **“Nod y ddarpariaeth yw cynyddu sgiliau’r gweithlu fel eu bod nhw, yn eu tro, yn dylanwadu ar ddatblygiad ein plant a phobl ifanc...”**

5.3 Gweithlu Addysg

Ym mis Medi, trosglwyddodd y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg dwys ar gyfer athrawon – y cwrs sabothol gynt – i’r Ganolfan, ac yn ystod y flwyddyn, gwnaeth 70 o athrawon ddilyn yr hyfforddiant.

Darparwyd ambell agwedd newydd i’r cyrsiau yn Haf 2026, gan gynnwys cyfle i fwy o ymarferwyr y sector uwchradd a chynorthwy-wyr dosbarth fanteisio ar gyfle dysgu dwys.

Mae’r cyrsiau dwys yn rhan o ddarpariaeth genedlaethol y Ganolfan ar gyfer y gweithlu addysg, gan gynnwys darpar athrawon. Mae dewis eang o gyrsiau ar gael, wedi’u teilwra ar gyfer y sector cynradd ac uwchradd, yn ogystal â chyfleoedd hunan-astudio ar-lein.

Nod y ddarpariaeth yw cynyddu sgiliau’r gweithlu fel eu bod nhw, yn eu tro, yn dylanwadu ar ddatblygiad ein plant a phobl ifanc ar hyd continwwm y Gymraeg, gan ddiwallu anghenion Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru).

> **“The aim of the provision is to strengthen the skills of the workforce, enabling them to influence and support the development of children and young people...”**

5.3 Education Workforce

In September, the intensive Learn Welsh provision for teachers – formerly known as the sabbatical scheme – transferred to the Centre. During the year, 70 teachers participated in the training.

New elements were added to the courses during Summer 2026, including opportunities for more practitioners in the secondary sector and classroom assistants to take part in intensive learning.

The intensive courses form part of the Centre’s national provision for the Education Workforce, including student teachers. A wide range of courses is available, tailored for the primary and secondary sectors, as well as online self-study opportunities.

The aim of the provision is to strengthen the skills of the workforce, enabling them to influence and support the development of children and young people across the Welsh-language continuum and meet the requirements of the Welsh Language and Education (Wales) Act.



“Ers lansio’r gyfres yn 2018, mae dros 50 o lyfrau hamdden wedi’u cyhoeddi, a gwerthwyd dros 84,000 o lyfrau.”

5.4 Cefnogi Dysgwyr

Darllen, Gwrando a Gwylio

Mae’r gyfres ddarllen Amdani, menter ar y cyd rhwng y Ganolfan a Chyngor Llyfrau Cymru, yn boblogaidd iawn.

Ers lansio’r gyfres yn 2018, mae dros 50 o lyfrau hamdden - sydd wedi’u graddoli yn ôl lefelau’r cwricwlwm Dysgu Cymraeg – wedi’u cyhoeddi, a gwerthwyd dros 84,000 o lyfrau.

Mae cynlluniau ar y gweill i ychwanegu teitlau newydd, gan gynnig mwy o gyfleoedd i ddysgwyr yn y de ddarllen llyfrau yn nhafodiaith y de, a dysgwyr yn y gogledd i ddarllen llyfrau yn nhafodiaith y gogledd. Bydd mwy o lyfrau Cymraeg prif ffrwd yn cael eu haddasu ar gyfer lefel Uwch, hefyd.

Cynhaliwyd Gŵyl Ddarllen Amdani yn ystod y flwyddyn, sy’n tynnu sylw at y gyfres a’r cyfleoedd i fwynhau darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg.

Cynhaliwyd yr ‘Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg’ flynyddol, ar y cyd â BBC Radio Cymru ac S4C, sy’n rhoi llwyfan i ddysgwyr a siaradwyr newydd, ac mae’r cydweithio yn parhau â Theatr Cymru.

Wrth i’r Ganolfan ac S4C ddathlu blwyddyn o bartneriaeth newydd, sy’n cynnwys lleoli tiwtor penodol i weithio â’r darlledwr a’r sector cynhyrchu, cyhoeddodd S4C ei fod am ymestyn ei ddarpariaeth i ddysgwyr.

Bydd y Ganolfan yn cydweithio ag S4C wrth baratoi’r cynnwys, er mwyn cefnogi camau taith iaith y gwylwyr.



5.4 Supporting learners

Reading, Listening and Viewing

The Amdani book series, a joint initiative by the Centre and the Books Council of Wales, is very popular.

Since the series was launched in 2018, more than 50 titles, graded according to the Learn Welsh curriculum levels, have been published, and more than 84,000 copies have been sold.

Plans are under way to add new titles, offering more opportunities for learners in the south to read books in South Walian dialect, and for learners in the north to read books in North Walian dialect, as well as adapted editions of mainstream Welsh-language books for Advanced learners.

The Amdani Festival of Reading was held during the year, highlighting the series and opportunities to enjoy reading and writing in Welsh.

The annual ‘Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg’ (Celebrating learning Welsh week) was held in collaboration with BBC Radio Cymru and S4C, providing a platform for learners and new speakers. Collaboration with Theatr Cymru also continues.

As the Centre and S4C celebrated a year of a new partnership, which included the placement of a Learn Welsh tutor to work with the broadcaster and the production sector, S4C announced it would extend its provision for learners.

The Centre will work with S4C in preparing content to support viewers at different stages of their language journey.

“Since the series was launched in 2018, more than 50 titles have been published, and more than 84,000 copies have been sold.”

Cerddoriaeth

Bob blwyddyn, mae'r Ganolfan yn trefnu bod cerddorion ac artistiaid Cymraeg yn ymweld â'r darparwyr i gynnal gigs, fel ffordd o gyflwyno diwylliant cyfoes Cymraeg. Yn 2025-2026 aeth Mei Gwynedd ar daith o gwmpas y darparwyr.

Yn y gymuned

Lluniwyd sesiynau i helpu meithrin hyder siaradwyr Cymraeg wrth sgwrsio â dysgwyr.

Cydweithiwyd â Mentrau Iaith Cymru i drefnu ystod o weithgareddau, gan gynnwys teithiau'n ymweld â lleoliadau chwaraeon, a chwisiau lleol a'r rownd derfynol, Y Cwis Mawr, yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r Mentrau hefyd yn cynnal prosiect 'Hapus i Siarad' ar ran y Ganolfan, sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn siopau a busnesau lleol ledled Cymru.

Mae'r Cynllun Siarad, sy'n paru dysgwyr â siaradwyr rhugl, yn parhau'n ffordd hwyliog o gefnogi dysgwyr i godi hyder a defnyddio mwy o'r Gymraeg yn eu cymunedau.

Diolch i'n partneriaid

Mae'r Ganolfan yn cynnal partneriaethau grymus, er mwyn denu pobl at y Gymraeg a chreu cyfleoedd i'n dysgwyr a siaradwyr newydd fwynhau defnyddio'r iaith. Dyma rai o bartneriaid y Ganolfan:

- BBC Cymru
- S4C
- Comisiynydd y Gymraeg
- Yr Eisteddfod Genedlaethol
- Yr Urdd
- Cyngor Llyfrau Cymru
- Mudiad Meithrin
- Theatr Genedlaethol Cymru
- Merched y Wawr
- Sefydliad Dysgu a Gwaith
- Mentrau Iaith Cymru
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol





Music

Each year, the Centre arranges for Welsh-language musicians and artists to hold gigs with local providers, as a way of introducing contemporary Welsh culture. In 2025–2026, musician Mei Gwynedd toured Learn Welsh providers as part of the scheme.

In the community

Sessions have been developed to help build the confidence of Welsh speakers when conversing with learners.

The Centre worked with Mentrau Iaith Cymru to organise a range of activities, including visits to sports venues and local quizzes. The final round of 'Y Cwis Mawr' was held at the National Eisteddfod. Mentrau Iaith Cymru also run the 'Hapus i Siarad/Happy to Talk' project on behalf of the Centre, providing opportunities for learners to use the Welsh language in shops and local businesses across Wales.

The Siarad scheme, which pairs learners with fluent speakers, continues to be an enjoyable way of supporting learners to build confidence and use more Welsh in their communities.

'Diolch yn fawr' – thank you to our partners

The Centre maintains strong partnerships to attract people to the Welsh language and create opportunities for our learners and new speakers to enjoy using the language. Some of the Centre's partners include:

- BBC Cymru Wales
- S4C
- Welsh Language Commissioner
- National Eisteddfod
- The Urdd
- Books Council of Wales
- Mudiad Meithrin
- Theatr Genedlaethol Cymru
- Merched y Wawr
- Learning and Work Institute
- Mentrau Iaith Cymru
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol

6. Cynllunio Strategol

Llywodraethiant

Cwmni Cyfyngedig dan warant a heb gyfalaf cyfrannau yw'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Unig aelod y cwmni o dan y Memorandwm Cymdeithasu yw Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Aelodau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yw'r Is-ganghellor, Yr Athro Elwen Evans, KC, Maria Stedman, Geraint Roberts, ac Emlyn Dole (cadeirydd). Mae'r aelodau yma yn gyfarwyddwyr; mae aelodau anweithredol ychwanegol o blith staff y Ganolfan, yn ogystal ag Alun Jones, Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan, sy'n sylwedydd.

O dan Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni, sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol, sy'n sicrhau bod y Ganolfan yn cyflawni ei hamcanion strategol, ac yn cyflenwi gwasanaethau i'r sector Dysgu Cymraeg.

Aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2025-2026 oedd:

Rhian Griffiths
Owain Gruffydd
Tim Hartley
Alan Jones
Alun Jones (Cadeirydd)
Josh Miles
Steve Morris
Nia Parry
Hammad Rind



6. Strategic Planning

Governance

The National Centre for Learning Welsh is a Company Limited by guarantee without share capital.

The only member of the company under the Memorandum of Association is the University of Wales Trinity Saint David. Members of the Board of Directors are the Vice-Chancellor, Professor Elwen Evans, KC, Maria Stedman, Geraint Roberts and Emlyn Dole (Chair). These members are directors; there are additional non-executive members from the Centre's staff, as well as observer Alun Jones, who is Chair of the Centre's Advisory Board.

Under the Company's Articles of Association, the Centre's Advisory Board was established, which ensures the Centre meets its strategic objectives, and delivers services to the Learn Welsh sector.

The Advisory Board's members at the end of the 2025-2026 academic year were:

Rhian Griffiths
Owain Gruffydd
Tim Hartley
Alan Jones
Alun Jones (Chair)
Josh Miles
Steve Morris
Nia Parry
Hammad Rind



Estyn

Mae Estyn yn arolygu gwaith y Ganolfan a'i darparwyr. Mae fframwaith penodol ar gyfer y sector, sy'n cynnwys:

- Arolygiadau â thema
- Gwerthusiadau cyfnodol o waith darparwyr unigol
- Arolygiadau llawn o sampl o ddarparwyr Dysgu Cymraeg
- Arolygiadau o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol



Staffio

O dan arweiniad y Prif Weithredwr, Dona Lewis, mae'r Ganolfan wedi'i rhannu'n bedair cyfarwyddiaeth:

- **Y Gyfarwyddiaeth Dysgu ac Addysgu** sy'n gyfrifol am agweddau cwricwlaidd.

  Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu: **Helen Prosser**

- **Y Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Datblygu** sy'n gyfrifol am wasanaethau corfforaethol y Ganolfan a phrosiectau amrywiol, gan gynnwys Strategaeth Gweithluoedd.

  Cyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu: **Lowri Bunford-Jones**

- **Y Gyfarwyddiaeth Strategol** sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth ar gyfer pobl 16-25 oed, teuluoedd a'r Gweithlu Addysg.

  Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Strategol: **Meinir Ebbsworth**

- **Y Gyfarwyddiaeth Marchnata a Chyfathrebu** sy'n gyfrifol am recriwtio, ymgysylltu, cysylltiadau cyhoeddus a datblygu'r brand.

  Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu: **Hannah Thomas**

Mae'r Ganolfan yn cyflogi 26 o staff llawn a rhan amser.

Estyn

Estyn inspects the work of the Centre and its providers. There is a specific framework for the sector, which includes:

- Themed inspections
- Periodic evaluations of the work of individual providers
- Full inspections of a sample of Learn Welsh providers
- Inspections of the National Centre for Learning Welsh



Staffing

Led by the Chief Executive, Dona Lewis, the Centre is divided into four directorates:

- **Teaching and Learning Directorate**, responsible for curricular aspects.

  Director of Teaching and Learning: **Helen Prosser**

- **Planning and Development Directorate**, responsible for the Centre's corporate services and various projects, including the Workforces Strategy.

  Director of Planning and Development: **Lowri Bunford-Jones**

- **Strategic Directorate**, responsible for provision for young people aged 16-25, families and the Education Workforce.

  Deputy Chief Executive and Strategic Director: **Meinir Ebbsworth**

- **Marketing and Communications Directorate**, responsible for recruitment, engagement, public relations and brand development.

  Director of Marketing and Communications: **Hannah Thomas**

The Centre employs 26 full-time and part-time members of staff.

Darparwyr y Ganolfan

Mae'r Ganolfan yn gweithio â rhwydwaith o ddarparwyr craidd, sy'n cynnal cyrsiau ar ei rhan.

Darparwr	Sefydliad cartref
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Prifysgol Bangor
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Coleg Cambria, yn gweithio gyda Popeth Cymraeg
Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr	Prifysgol Aberystwyth
Dysgu Cymraeg Y Fro	Prifysgol Aberystwyth
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe	Prifysgol Abertawe
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Cyngor Sir Benfro
Dysgu Cymraeg Gwent	Coleg Gwent
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Prifysgol Caerdydd
Dysgu Cymraeg Morgannwg	Prifysgol De Cymru
Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	Nant Gwrtheyrn

Cyllideb

Dyma grynodeb o gyllideb y Ganolfan ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-2026:

	Swm
Gwasanaethau Craidd y Ganolfan	£1,995,000
Darparwyr Cyrsiau	£9,250,500
Cynllun Dwys Addysg (Sabothol)	£1,283,497
Cynllun Cymraeg Gwaith	£2,802,000
Cynllun Ymlaen gyda'r Dysgu (Gweithlu Addysg a Phobl Ifanc)	£2,828,750
Cyfanswm	**£18,159,747**

The Centre's providers

The Centre works with a network of core providers, which run courses on its behalf.

Provider	Host organisation
Learn Welsh North West	Bangor University
Learn Welsh North East	Coleg Cambria, working with Popeth Cymraeg
Learn Welsh Ceredigion-Powys-Carmarthenshire	Aberystwyth University
Learn Welsh The Vale	Aberystwyth University
Learn Welsh Swansea Bay Region	Swansea University
Learn Welsh Pembrokeshire	Pembrokeshire County Council
Learn Welsh Gwent	Coleg Gwent
Learn Welsh Cardiff	Cardiff University
Learn Welsh Glamorgan	University of South Wales
Learn Welsh Nant Gwrtheyrn	Nant Gwrtheyrn

Funding

Funding summary for the Centre for the 2025-2026 academic year:

	Total
The Centre's Core Services	£1,995,000
Course Providers	£9,250,500
Intensive Education Scheme (Sabbatical)	£1,283,497
Work Welsh Scheme	£2,802,000
Ymlaen gyda'r Dysgu scheme (Education Workforce and Young People)	£2,828,750
Total	**£18,159,747**

7. Cysylltwch â ni:

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Ffôn: 0300 3234324
swyddfa@dysgucymraeg.cymru
dysgucymraeg.cymru

7. Contact us:

The National Centre for Learning Welsh
Y Llwyfan
College Road
Carmarthen
SA31 3EQ

Telephone: 0300 3234324
swyddfa@dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru




Llywodraeth Cymru
Welsh Government


CYMRAEG
Dysgu
Learn